# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (O BELL TRWY TEAMS)

**<u>Aelodau'n bresennol:</u>** **<u>Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2021</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | D.Keogh, R.Mizen, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes, M.Protheroe, S.K.Hunt *a*/ac C.J.Jones |
| **Aelod CDU/CDLI:** | Aelod A.Wingrave |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod J.Hale (Bryncoch South) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, S.Ball, M.Shaw, R.MacGregor, D.Thomas, J.Griffiths, S.Jenkins, L.Morgan a/ac T.Davies |

---

1. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd C Williams | Parthed: Eitem 4 ar yr Agenda, Cais Cynllunio Rhif P2019/5304, Aldi, Abaty Nedd, gan ei fod yn gyflogai i Tesco Stores Ltd. Nid oedd o'r farn bod ei fudd yn niweidiol felly roedd yn gallu pleidleisio a siarad. |

2. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr, 2020.

3. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

4. **TAFLEN DDIWYGIADAU**

Nodyn: Dosbarthwyd dwy daflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif: P2019/5304 cyn y cyfarfod, yr oedd y Cadeirydd wedi rhoi digon o amser i'r aelodau eu darllen, mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd. Roedd y Cadeirydd wedi rhoi caniatâd i'w dosbarthu/hystyried ar frys yn ystod y cyfarfod heddiw oherwydd y rhesymau a'r amgylchiadau penodol canlynol: nid oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac roedd am sicrhau bod aelodau’n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

5. **CAIS RHIF P2019/5034 - ALDI, MYNACHLOG NEDD**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Codi siop fwyd Dosbarth A1 (Aldi Stores Ltd) (arwynebedd llawr gros 1,899 metr sgwâr) gyda mynedfa, lle parcio ceir a thirlunio cysylltiedig (llinell goch ddiwygiedig i hwyluso gwell mynediad a lleiniau gwelededd) ar dir gerllaw CSN Precision Engineering, Neath Abbey Road, Castell-nedd, SA10 7BR) fel y nodir yn yr adroddiad cylchredeg.

Roedd aelodau'r ward leol yn bresennol i roi eu sylwadau, yn ogystal â siaradwr cofrestredig yn erbyn y cais, a'r ymgeisydd, a arferodd ei hawl i ymateb.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2019/5304 yn unol ag argymhellion Swyddogion, ac yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**CADEIRYDD**